Archwilio Cymru
Audit Wales

# Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru

Gorffennaf 2022

Paratowyd yr adroddiad hwn o dan adran 41 Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Archwilio Cymru yw enw ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n ddau endid cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill er mwyn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys


## Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru 4

Gan dynnu ar ei waith diweddar ar dwristiaeth gynaliadwy, mae Archwilio Cymru'n ystyried rhai o'r heriau a wynebir gan Awdurdodau Parc Cenedlaethol wrth gyflawni eu dibenion a'u dyletswydd statudol 4

## Canfyddiadau allweddol 6

Mae gan y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol rôl hollbwysig o ran rheoli'r amgylchedd ac annog ymwelwyr i fwynhau'r awyr agored 6

Rhaid i'r Awdurdodau Parc Cenedlaethol yng Nghymru daro cydbwysedd rhwng hybu twristiaeth a chadw'r amgylchedd naturiol ond maent yn cael hyn yn anodd i'w gyflawni 6

Mae busnesau twristaidd yn gwerthfawrogi gwaith yr Awdurdodau Parc Cenedlaethol gan mwyaf ond nid ydynt yn meddwl eu bod wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng eu dau ddiben statudol 8

Mae'r rhan fwyaf o fusnesau twristaidd yn ceisio gweithio'n gynaliadwy ac yn cydnabod gwerth twristiaeth gynaliadwy 10

Nid yw Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol yn meddu ar yr adnoddau na'r pwerau i reoli neu ddylanwadu ar nifer y bobl sy'n ymweld â'u hardaloedd, na'u hymddygiad a'u heffaith 11

## Ffordd Ymlaen 13

## Atodiadau

Atodiad 1 – Methodoleg 14

Atodiad 2 – Arolwg o fusnesau twristiaeth – prif ganfyddiadau 15

Atodiad 3 – Astudiaeth achos: Twristiaeth gynaliadwy yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Cairngorms 20

# Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru

## Gan dynnu ar ei waith diweddar ar dwristiaeth gynaliadwy, mae Archwilio Cymru'n ystyried rhai o'r heriau a wynebir gan Awdurdodau Parc Cenedlaethol wrth gyflawni eu dibenion a'u dyletswydd statudol

1 Er bod pobl yn ymweld â'r Parciau Cenedlaethol am nifer o resymau, yn nodweddiadol defnydd hamdden ac edmygu harddwch naturiol, mae'r Parciau hyn hefyd yn gartref i ecosystemau anhepgor a chymunedau byw, ffyniannus. Felly mae twristiaeth yn aml yn cael ei disgrifio fel croeseb broblemus; lle mae twristiaeth yn denu ymwelwyr, manteision economaidd, ac yn addysgu'r cyhoedd, ond bod eu presenoldeb yn gallu achosi risg i ddiogelu'r safleoedd diwylliannol a naturiol mewn Parc Cenedlaethol.

2 Mae'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru'n gyrchfannau twristaidd adnabyddus, ac mae eu statws yn darparu delwedd brand gref sy'n ymestyn y tu hwnt i'w terfynau. Gyda thwf twristiaeth mewn Parciau Cenedlaethol, mae twristiaeth gynaliadwy – dod o hyd i ffyrdd o hybu twf twristiaeth gan hefyd warchod diwylliant a bioamrywiaeth yr ardaloedd hyn – wedi dod yn fwyfwy pwysig.

**Arddangosyn 1: diffiniad Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig o Dwristiaeth Gynaliadwy**

> **“Twristiaeth sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'w heffeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn awr ac yn y dyfodol, gan ddiwallu anghenion ymwelwyr, y diwydiant, yr amgylchedd a chymunedau lletyol.”**

Ffynhonnell: unwto.org/sustainable-development

3 Yn 2021-22, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol dri adroddiad ar sut y mae pob un o'r Awdurdodau Parc Cenedlaethol yng Nghymru'n ymateb i her rheoli a helpu i gyflawni twristiaeth gynaliadwy. Fe wnaeth pob un o'r adolygiadau hyn nodi rhai anawsterau a wynebir gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a'u partneriaid o ran cyflawni eu cyfrifoldebau. Mae gweddill y papur hwn yn amlygu rhai materion cyffredin pwysig a ddaeth i'r amlwg o'r adroddiadau hyn.

4 Mae'r rhain fel a ganlyn:

a mae gan y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol rôl hollbwysig o ran rheoli'r amgylchedd ac annog ymwelwyr i fwynhau'r awyr agored;

b rhaid i'r awdurdodau parc cenedlaethol yng Nghymru daro cydbwysedd rhwng hybu twristiaeth a chadw'r amgylchedd naturiol ond maent yn cael hyn yn anodd i'w gyflawni;

c mae busnesau twristaidd yn gwerthfawrogi gwaith yr Awdurdodau Parc Cenedlaethol gan mwyaf ond nid ydynt yn meddwl eu bod wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng eu dau ddiben statudol;

ch mae'r rhan fwyaf o fusnesau twristaidd yn ceisio gweithio'n gynaliadwy ac yn cydnabod gwerth twristiaeth gynaliadwy; ac

d nid yw awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn meddu ar yr adnoddau na'r pwerau i reoli neu ddylanwadu ar nifer y bobl sy'n ymweld â'u hardaloedd, na'u hymddygiad a'u heffaith.

5 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y canfyddiadau hyn wrth ddatblygu a phennu ei blaenoriaethau ar gyfer Awdurdodau Parc Cenedlaethol, er mwyn rhoi cymorth i roi polisi cenedlaethol ar waith yn effeithiol.

# Canfyddiadau allweddol

## Mae gan y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol rôl hollbwysig o ran rheoli'r amgylchedd ac annog ymwelwyr i fwynhau'r awyr agored

6 Amcangyfrifir bod 12 miliwn o bobl yn ymweld â Pharciau Cenedlaethol Cymru bob blwyddyn. Yn flynyddol, mae tri chwarter poblogaeth Cymru'n ymweld ag un o'r Parciau Cenedlaethol gan gael budd o'r awyr agored gwych. Mae hamdden a thwristiaeth yn bwysig i'r economi leol ac i iechyd a lles pobl. Hefyd, mae angen i'r Awdurdodau Parc Cenedlaethol daro cydbwysedd rhwng y gofynion hyn a'u cyfrifoldebau hwy am warchod tir, anifeiliaid a chynefinoedd. Os oes gwrthdaro rhwng y ddau ddiben hyn, rhoddir mwy o bwys ar gadwraeth nag ar hamdden.

7 Uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer yr economi ymwelwyr yw 'tyfu twristiaeth er lles Cymru'[1]. Ac mae'r llythyr cylch gwaith strategol[2] a gyhoeddwyd gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021 yn ailddatgan rôl allweddol Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol o ran datblygu twristiaeth gynaliadwy a hamdden awyr agored, ond mewn modd cynaliadwy. Ceir disgwyliad y bydd pob un o'r Awdurdodau Parc Cenedlaethol yn ymgysylltu â darparwyr twristiaeth i ganfod sut y gallant gyfrannu at gyflawni cynaliadwyedd yr ardal[3].

## Rhaid i'r Awdurdodau Parc Cenedlaethol yng Nghymru daro cydbwysedd rhwng hybu twristiaeth a chadw'r amgylchedd naturiol ond maent yn cael hyn yn anodd i'w gyflawni

8 Trwy ein gwaith gwyddom fod Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol ar y cyd yn meddu ar flynyddoedd lawer o brofiad o reoli niferoedd mawr o ymwelwyr. Maent yn cyflogi ystod o aelodau o staff sy'n ymgysylltu ag ymwelwyr yn ddyddiol, gan wella profiadau ymwelwyr, a helpu i hybu pwysigrwydd pobl yn mwynhau'r amgylchedd naturiol ond yn peidio â chael effaith niweidiol arno.

1 Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025.

2 O fis Mai 2022 mae'r 'llythyr cylch gwaith' wedi cael ei newid i'r 'Llythyr strategol dros dymor y Llywodraeth'.

3 Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol.

9 Cydnabu pob un o'r tri Awdurdod fod COVID-19 a COP26[4] wedi tynhau'r ffocws ar argyfwng natur – ymwelir yn fwy â'r Parciau Cenedlaethol yn awr nag erioed o'r blaen, ond mae niferoedd uwch o ymwelwyr yn niweidio bioamrywiaeth ac amgylcheddau unigryw'r Parciau Cenedlaethol. Mae gan y tri Awdurdod Parciau Cenedlaethol ddau ddiben statudol a dyletswydd statudol. Mae'r dibenion a'r dyletswyddau'n sail i'r holl waith a wneir gan bob Awdurdod a dyma'r man cychwyn ar gyfer y cynlluniau a'r strategaethau y maent yn eu datblygu – **Arddangosyn 2**. Yn y bôn, mae taro cydbwysedd rhwng anghenion y ddau ddiben yn anodd a dywedodd pob un o'r Parciau Cenedlaethol wrthym eu bod yn cael anhawster gyda hyn.

**Arddangosyn 2: Dibenion Statudol a dyletswydd statudol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru**

| | |
|---|---|
| **Dibenion Statudol** | • Cadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.<br>• Hybu cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau a deall nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. |
| **Dyletswydd Statudol** | • Meithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol |

Ffynhonnell: Deddf yr Amgylchedd 1995

10 Mae rheoli mynediad, twristiaeth a'u heffeithiau'n gallu bod yn her i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Yn gymesur, ychydig o dir y maent yn berchen arno o fewn y Parciau Cenedlaethol, ac nid ydynt yn rheoli strategaethau twristiaeth a chyrchfannau cenedlaethol na rhanbarthol yn uniongyrchol. Amlygwyd y cydbwysedd anodd rhwng dau ddiben statudol a dyletswydd statudol Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol[5] pan dyrrodd niferoedd digynsail o ymwelwyr i'r Parciau ar ôl iddynt gael eu hailagor yn 2020.

11 O ystyried hyn, mae pob Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ceisio gweithio mewn partneriaeth a chydweithio gyda phawb sydd â chyfrifoldeb am ardal y Parc Cenedlaethol. Mae pob un o'r Parciau Cenedlaethol wedi sefydlu Cynllun Rheoli[6] i helpu i gydlynu eu gwaith i fynd i'r afael â'r materion mwyaf tyngedfennol dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r Cynlluniau'n ffordd o sicrhau bod y llu o sefydliadau ac unigolion sy'n cyfrannu at ddibenion yr Awdurdodau Parc Cenedlaethol, sef cadwraeth, mwynhad a dealltwriaeth yn cefnogi gwaith pob Awdurdod.

4 COP26 oedd 26ain cyfarfod Cynhadledd y Partïon, lle daeth llywodraethau, Sefydliadau Anllywodraethol, undebau llafur, busnesau a phawb arall ag unrhyw ddiddordeb mewn newid hinsawdd ynghyd i adolygu a negodi camau gweithredu byd-eang. Cynhaliwyd y digwyddiad rhwng 1 a 12 Tachwedd 2021 yn Glasgow.

5 Deddf yr Amgylchedd 1995

6 Dan Adran 66 Deddf yr Amgylchedd 1995, mae'n ofynnol i bob Awdurdod Parc Cenedlaethol baratoi a chyhoeddi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ar gyfer eu Parc.

## Mae busnesau twristaidd yn gwerthfawrogi gwaith yr Awdurdodau Parc Cenedlaethol gan mwyaf ond nid ydynt yn meddwl eu bod wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng eu dau ddiben statudol

12 Dywedodd ymatebwyr i'n harolwg o fusnesau twristiaeth sydd wedi'u lleoli o fewn Awdurdodau Parc Cenedlaethol Cymru wrthym fod gan Awdurdodau rai cryfderau amlwg. Mae'r rhain yn cynnwys cadw a gwarchod amgylchedd naturiol; hyrwyddo rôl 'genedlaethol – Gymreig' Parciau; a hyrwyddo gweithgareddau ac opsiynau wrth ymweld ag ardal y Parc Cenedlaethol megis llwybrau cerdded. Roedd gan fusnesau twristiaeth a gymerodd ran yn ein harolwg farn gadarnhaol hefyd am waith Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Er enghraifft:


a mae 95% o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod Parc Cenedlaethol a reolir yn dda'n bwysig i ddenu twristiaid;

b mae 92% hefyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod cadw a gwarchod adnoddau naturiol a thwristiaeth yn gydnaws â'i gilydd; ac

c mae 72% yn meddwl bod twristiaeth gynaliadwy'n helpu, neu y bydd yn helpu, eu busnes.

13 Fodd bynnag, mae ein harolwg o fusnesau twristiaeth hefyd yn dynodi bod lle i wella o ran sut y mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn ymgysylltu â'r sector preifat (**Arddangosyn 3**). Dim ond 31% o'r busnesau a ymatebodd i'n harolwg ddywedodd fod eu Hawdurdod Parc Cenedlaethol wedi ceisio'u barn yn benodol i helpu i lunio'u strategaeth ar gyfer twristiaeth gynaliadwy. Mae oddeutu traean o'r busnesau'n teimlo'n wybodus ynglŷn â gwaith y Parc Cenedlaethol a'u bod yn cael eu cynnwys yn y gwaith hwnnw a bod ganddynt berthynas weithio dda â'u Hawdurdod Parc Cenedlaethol.

**Arddangosyn 3: barn busnesau twristiaeth ynglŷn â dull Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol o fynd ar drywydd twristiaeth gynaliadwy**




Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru o Fusnesau Twristaidd yng Nghymru, Ionawr 2022

14 Hefyd, nid yw oddeutu hanner y busnesau'n meddwl bod eu Hawdurdod Parc Cenedlaethol yn dda am egluro beth all busnesau ei wneud i helpu i gyflawni twristiaeth gynaliadwy. Dim ond 43% sy'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod eu Hawdurdod Parc Cenedlaethol yn hybu twristiaeth gynaliadwy mewn modd effeithiol. Dim ond 18% sy'n credu bod eu Hawdurdod Parc Cenedlaethol yn dda am gyfleu pwysigrwydd twristiaeth gynaliadwy i'r cyhoedd. Yn olaf, dim ond 29% o'r ymatebwyr i'r arolwg sy'n cytuno bod eu Hawdurdod Parc Cenedlaethol wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng gwarchod yr amgylchedd naturiol a hybu mwynhad o'r Parc Cenedlaethol ar yr adeg hon. Gweler **Atodiad 2** am ragor o wybodaeth am ganfyddiadau ein harolwg.

## Mae'r rhan fwyaf o fusnesau twristaidd yn ceisio gweithio'n gynaliadwy ac yn cydnabod gwerth twristiaeth gynaliadwy

15 Yn ogystal â hybu twristiaeth gynaliadwy, mae'n bwysig bod busnesau hefyd yn gweithio mewn ffordd gynaliadwy. Mae twristiaid heddiw'n fwy ymwybodol o'u gweithredoedd a'r effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol y gallant eu cael. Felly mae arnynt eisiau gweld mwy o fusnesau'n mynd ati'n frwd i wneud rhywbeth. Bydd arferion cynaliadwy hefyd yn arbed arian ar y cyfan. Canfu ein harolwg fel a ganlyn:



Mae dros 80% o'r busnesau a gymerodd ran yn ein harolwg yn hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymwelwyr am nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol




Mae oddeutu 70% o'r busnesau a gymerodd ran yn ein harolwg yn hyrwyddo diwylliant lleol a threftadaeth leol – e.e. annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg



Mae dros 80% o'r busnesau twristaidd a gymerodd ran yn ein harolwg yn ceisio lleihau gwastraff tirlenwi a chynyddu cyfraddau ailgylchu



Mae ychydig o dan 80% o'r busnesau twristaidd a gymerodd ran yn ein harolwg yn ceisio lleihau'r defnydd o ynni



Mae ychydig o dan 60% o'r busnesau twristaidd a gymerodd ran yn ein harolwg yn ceisio lleihau'r defnydd o ddŵr neu arbed dŵr



Mae ychydig dros 30% o'r busnesau twristaidd a gymerodd ran yn ein harolwg yn cynhyrchu eu hynni gwyrdd eu hunain



Mae 82% o'r busnesau twristaidd a gymerodd ran yn ein harolwg yn hurio pobl leol yn bennaf (50%) (ein diffiniad ni o bobl leol yw pobl sy'n byw o fewn 15 milltir i'r busnes)



Mae 60% o'r busnesau twristaidd a gymerodd ran yn ein harolwg yn cael y mwyafrif (75%) o'u cyflenwadau gan gynhyrchwyr lleol (ein diffiniad ni o gynhyrchwyr lleol yw cynhyrchwyr sydd o fewn 30 milltir i'r busnes)

## Nid yw Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol yn meddu ar yr adnoddau na'r pwerau i reoli neu ddylanwadu ar nifer y bobl sy'n ymweld â'u hardaloedd, na'u hymddygiad a'u heffaith

16 Yn hanesyddol, ni fu gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol rôl uniongyrchol o ran hyrwyddo twristiaeth a marchnata eu cyrchfannau. Ac yn gymesur, ychydig o dir y maent yn berchen arno. Maent yn un o'r llu o gyfranwyr yn eu hardal sydd â rôl o ran twristiaeth a gwarchod yr amgylchedd. Mae llawer o'r ysgogiadau strategol ar gyfer twristiaeth gynaliadwy wedi'u rhoi i sefydliadau a chyrff nad ydynt wastad yn rhannu'r un weledigaeth ac nad oes ganddynt yr un cyfrifoldebau am warchod amgylchedd y Parciau Cenedlaethol.

17 Er enghraifft, nid yw cyllid a chylch gwaith Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn cynnwys marchnata twristiaeth yn uniongyrchol o fewn Parciau Cenedlaethol a dim ond Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n sefydliad rheoli cyrchfan (gan weithio ochr yn ochr â Twristiaeth Bannau Brycheiniog). Yn draddodiadol, mae hyn yn golygu mwy o bwyslais ar ymgysylltu â'r gymuned fusnes ac fe gaiff yr ymgysylltu cadarnhaol hwn ei adlewyrchu ym marn busnesau ym Mannau Brycheiniog (e.e. ymatebion i'r arolwg ynghylch lefelau cynnwys a dylanwadu i hybu twristiaeth gynaliadwy – tudalen 16). Mae Arfordir Penfro ac Eryri'n gweithio gyda'r cyrff lleol sy'n arwain ar yr agenda hon: Croeso Sir Benfro a Chyngor Gwynedd yn y drefn honno. Felly, i fod yn llwyddiannus mae'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yn canolbwyntio'n bennaf ar ddylanwadu ar yr hyn y mae eraill yn ei wneud, ond nid yw hyn yn rhwydd ac yn aml nid yw'n syml.

18 Ar ôl dwy flynedd o gyfyngiadau symud, mae busnesau twristaidd yn naturiol yn awyddus i annog ymwelwyr a chael budd economaidd o gynnydd mewn twristiaeth. Fodd bynnag, gall hyn roi straen ar seilwaith lleol a chreu problemau anfwriadol o ran tipio anghyfreithlon, parcio ceir mewn modd anghyfrifol ar ymylon ffyrdd, mwy o risg o ddamweiniau, twf mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol ac effaith negyddol ar gymunedau lleol ym mhob un o'r Parciau Cenedlaethol.

19 Fe wnaeth pob un o'r tri Pharc Cenedlaethol amlygu problemau parhaus a hirsefydlog gyda'r seilwaith lleol yn eu hardaloedd, yn enwedig cludiant cyhoeddus, parcio ceir, llwybrau teithio llesol integredig ac ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Disgrifiodd swyddogion rai gwelliannau sylweddol y mae eu hangen i'r seilwaith i reoli effaith ymwelwyr sy'n teithio mewn car yn well, yn enwedig o amgylch yr atyniadau mwyaf poblogaidd ym mhob Parc Cenedlaethol ac yn ystod y tymhorau brig.

20 Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdodau'n meddu ar y pŵer na'r capasiti i reoli'r newidiadau sylweddol mewn seilwaith y mae eu hangen i helpu i gyflawni twristiaeth gynaliadwy nac i wneud y newidiadau hynny ar eu pennau eu hunain. Fodd bynnag, mae llawer o'r cyfrifoldebau statudol ar gyfer ymateb yn y materion hyn wedi'u rhoi i bartneriaid, yn anad neb awdurdodau lleol a/neu'r Heddlu, neu landlordiaid preifat, ac yn aml ychydig y mae Awdurdodau eu hunain yn gallu ei wneud yn uniongyrchol.

21 Fodd bynnag, mae cyrff cyhoeddus eraill yn aml yn methu ag ymateb yn effeithiol ac yn gyson oherwydd pwysau o ran adnoddau a phwysau eraill. Dywedodd swyddogion ac aelodau Awdurdodau y cyfwelom ni â hwy ar draws y tri Pharc Cenedlaethol wrthym fod materion yn 'syrthio rhwng craciau' y gwahanol asiantaethau ac nad ymdrinnir â hwy'n effeithiol. Eto, trwy Ddeddf yr Amgylchedd 1995, y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol sydd â gorchwyl i gadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol, felly nid yw gwneud dim byd yn opsiwn.

22 Mae ein hadroddiadau ar dwristiaeth gynaliadwy ym mhob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru'n pwysleisio mor bwysig ydyw bod pob Awdurdod yn cyfleu defnydd cyfrifol o'r Parciau i'r cyhoedd. I fod yn fwyaf effeithiol, dylai hyn gael ei ategu ar lefel genedlaethol gan Lywodraeth Cymru trwy Croeso Cymru[7] a chydweithio rhwng y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol trwy Parciau Cenedlaethol Cymru fel brand.

23 Hefyd, mae llawer o dirfeddianwyr preifat yn canolbwyntio'n llawn gymaint, os nad yn fwy, ar greu incwm yn hytrach na rheoli effaith twristiaeth ar yr amgylchedd lleol. Mae'r cyfyngiadau yng nghyfrifoldebau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn golygu bod y materion hyn yn aml yn mynd heb eu hatal ac yn parhau i achosi problemau yn enwedig mewn cymunedau lleol. Gyda thwf o un flwyddyn i'r llall mewn twristiaeth mae'n amlwg y bydd y broblem hon yn cael ei gwaethygu.

24 Dywedodd pob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol wrthym nad yw cylch ariannu blynyddol Llywodraeth Cymru'n darparu ar gyfer cynllunio a buddsoddi hirdymor ar gyfer seilwaith sy'n cefnogi twristiaeth gynaliadwy. Yn yr un modd, mae pob un o'r tri Pharc Cenedlaethol yn dal i gael cyllid ychwanegol o ffynonellau eraill ac mae hyn yn debygol o dyfu ymhellach byth yn y dyfodol.

7 Mae Croeso Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru ac yn gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo'r economi ymwelwyr yng Nghymru.

# Ffordd Ymlaen

25 Gan dynnu ar y set hon o adolygiadau, mae'n amlwg bod rhai materion cyffredin a thyngedfennol i Lywodraeth Cymru eu hystyried wrth fframio blaenoriaethau yn y dyfodol ar gyfer y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru. Gyda hyn mewn golwg, rydym ni'n credu bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried y canfyddiadau hyn wrth bennu ei blaenoriaethau ar gyfer ein Awdurdodau ein Parciau Cenedlaethol yn y llythyr strategol dros dymor y Llywodraeth.

# Atodiadau

## Atodiad 1 – Methodoleg

Fe gynhaliom ni’r adolygiad yn ystod gaeaf 2021-22. Roedd ein dulliau’n cynnwys:

- cyfuno ein gwybodaeth a phrofiad archwilio cronnus;
- arolwg o fusnesau twristiaeth yn y parciau cenedlaethol a hyrwyddwyd trwy Croeso Cymru;
- adolygu data a dogfennau allweddol;
- cyfweld â swyddogion ac aelodau etholedig ym mhob Awdurdod Parc Cenedlaethol;
- cyfweld â swyddogion allweddol mewn sefydliadau partner gan gynnwys swyddogion twristiaeth o Gynghorau yn ardal pob Parc Cenedlaethol; a
- chadw mewn cysylltiad rheolaidd â’r isadran tir, natur a choedwigaeth yn Llywodraeth Cymru.

# Atodiad 2 – Arolwg o fusnesau twristiaeth – prif ganfyddiadau

Fe gynhaliom ni arolwg o fusnesau twristiaeth yn y parciau cenedlaethol a hyrwyddwyd trwy Croeso Cymru ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol lleol. Ledled Cymru, fe ymatebodd 281 o fusnesau i'n harolwg. O'r rhain, roedd 204 wedi'u lleoli o fewn, neu'n gweithredu'n bennaf o fewn, terfynau parc cenedlaethol yng Nghymru.


Cyflwynir y data ar ddwy lefel: ymatebion cyfunol ar gyfer pob un o'r tri pharc cenedlaethol; ac ymatebion i bob parc cenedlaethol penodol (a enwir).

Er i ni gael cyfanswm o 281 o ymatebion ar wahân, nid atebwyd pob cwestiwn gan bob busnes twristaidd a gyflwynodd arolwg. Mae hyn yn rhoi cyfrif am beth gwahaniaeth yn y cyfansymiau a nodir dan bob cwestiwn. Caiff nifer yr ymatebion i bob cwestiwn ei nodi yn y graffiau isod. Mae'r dadansoddiad wedi'i grwpio'n dair adran:


- cytundeb busnesau ag egwyddorion twristiaeth gynaliadwy;
- effeithiolrwydd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol o ran hybu twristiaeth gynaliadwy; a
- lefelau cynnwys a dylanwad i hybu twristiaeth gynaliadwy.

## Cytundeb busnesau ag egwyddorion twristiaeth gynaliadwy


Ydych chi'n cytuno bod cadw a gwarchod adnoddau naturiol a thwristiaeth yn gydnaws â'i gilydd?




Ydych chi'n cytuno bod Parc Cenedlaethol a reolir yn dda'n bwysig i ddenu twristiaid?




Ar y cyfan, ydych chi'n teimlo bod twristiaeth gynaliadwy'n helpu, neu y bydd yn helpu, eich busnes?





## Effeithiolrwydd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol o ran hybu twristiaeth gynaliadwy


Ydych chi'n cytuno bod eich Awdurdod Parc Cenedlaethol lleol yn hybu twristiaeth gynaliadwy'n effeithiol?



Er mwyn datblygu twristiaeth gynaliadwy mae'n ofynnol bod Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng gwarchod nodweddion arbennig y Parc a hybu dealltwriaeth am ei nodweddion arbennig a mwynhad ohonynt. Ydyn nhw wedi taro'r cydbwysedd cywir?





A yw eich Awdurdod Parc Cenedlaethol lleol yn dda am gyfleu pwysigrwydd twristiaeth gynaliadwy i'r cyhoedd?




## Lefelau cynnwys a dylanwad i hybu twristiaeth gynaliadwy

Ydych chi'n teimlo ar y cyfan eich bod yn wybodus am waith yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ac yn cael eich cynnwys ynddo a bod gennych berthynas weithio dda?




A yw eich Awdurdod Parc Cenedlaethol lleol yn dda am egluro beth all eich busnes chi ei wneud i helpu i gyflawni twristiaeth gynaliadwy?



# Atodiad 3 – Astudiaeth achos: Twristiaeth gynaliadwy yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Cairngorms

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Cairngorms yn gosod pwyslais mawr ar hybu profiadau ymwelwyr yn ei Gynllun Partneriaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol 2017-2022[8] fel rhan o ymgais ehangach i hybu twristiaeth gynaliadwy. Mae'r Cynllun Partneriaeth yn nodi'r heriau mawr i'r Awdurdod o ran gwella profiad ymwelwyr:

- gwella ansawdd y Parc fel cyrchfan twristiaeth;
- cynyddu ac ehangu cyfranogiad mewn hamdden awyr agored a gweithgarwch corfforol; ac
- annog mwy o bobl ledled yr Alban i wneud y gorau o Barc Cenedlaethol Cairngorms trwy ddysgu a hamdden.

Tanategir ei Gynllun Partneriaeth gan Gynllun Gweithredu Twristiaeth[9] sy'n rhoi cymorth i wireddu ei uchelgeisiau ar y cyfan i hybu twristiaeth gynaliadwy. Datblygwyd y Cynllun Gweithredu gan Bartneriaeth Twristiaeth Cairngorms (CTP) sy'n dwyn ynghyd y sefydliadau allweddol, gan gynnwys Sefydliadau Rheoli Cyrchfan, partneriaid ehangach yn y sector cyhoeddus, busnesau a grwpiau cymunedol. Caiff y broses o'i gyflawni ei chydlynu gan CTP a'i goruchwylio gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Cairngorms.

Mae pum thema allweddol i'r Cynllun Gweithredu:

- **arweinyddiaeth** – cydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth gref trwy bartneriaethau effeithiol i sicrhau y cyflawnir twristiaeth gynaliadwy ac economi ymwelwyr sy'n tyfu ym Mharc Cenedlaethol Cairngorms.
- **sgiliau** – mae'r Cynllun Gweithredu'n cydnabod bod pobl yn ganolog i'r economi ymwelwyr a thrwy gynyddu gwybodaeth a sgiliau pobl bod cyfle sylweddol i wella profiad ymwelwyr. Mae'r thema hon yn mynd i'r afael â'r anawsterau a wynebir gan fusnesau twristiaeth gyda chyflogaeth yn y sector yn aml yn cael ei hystyried yn un sy'n cynnig tâl isel, heb sgiliau, ac yn fyrdymor. Dros ei gylch pum mlynedd roedd y Cynllun Gweithredu'n ceisio hybu sgiliau trwy hyfforddiant a chymorth i staff.
- **gwella'i asedau** – mae'r Cynllun Gweithredu'n cydnabod pwysigrwydd cadw a gwella'r union bethau sy'n gwneud yr amgylchedd a bioamrywiaeth yn y Parc Cenedlaethol yn unigryw ac arbennig, ac yn cysylltu hyn â phrofiad ymwelwyr.
- **ymgysylltu ac ysbrydoli** – dros ei gylch oes mae'r Cynllun Gweithredu'n nodi sut y mae'r Awdurdod a'i bartneriaid yn ceisio datblygu potensial brand y Parc Cenedlaethol i ddenu ymwelwyr, eu hannog i aros am yn hwy, i fwynhau'r Parc heb ei ddifrodi ac i fuddsoddi yn yr ardal.

8 Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Cairngorms 2017-2022
9 Cynllun Gweithredu Twristiaeth ar gyfer Parc Cenedlaethol Cairngorms 2017-2022

- **rhyngwladol** – mae'r Awdurdod wedi adnabod y potensial i ymwelwyr rhyngwladol fod yn fwy tebygol o aros am yn hwy a gwario mwy o arian nag ymwelwyr domestig, gan felly dyfu'r economi ymwelwyr heb o anghenraid dyfu niferoedd a phwysau ymwelwyr. Mae marchnadoedd rhyngwladol yn elfen allweddol o'r strategaeth twf ar gyfer yr Alban, ac mae'r Cynllun Gweithredu'n ceisio cryfhau cysyllteddau â Pharciau Cenedlaethol.

Yn bwysig, mae'r Awdurdod wedi blaenoriaethu gweithgareddau yn erbyn dim ond pedwar nod allweddol. Caiff y rhain eu nodi'n glir yn y Cynllun Gweithredu ac maent wedi'u hintegreiddio'n dda ac yn dangos y cyfraniad at wireddu uchelgeisiau ehangach yng Nghynllun Partneriaeth y Parc Cenedlaethol. Mae'r nodau allweddol yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol (CAMPUS):

- dros y cyfnod 2017-2022, bod gwariant ymwelwyr a hyd ymweliadau'n tyfu y tu hwnt i'r cyfartaledd ar gyfer yr Alban;
- cynyddu effaith economaidd ymwelwyr â dwyrain a de Cairngorms o 21% i 25% o gyfanswm yr economi ymwelwyr;
- bydd twf cryfach yn niferoedd yr ymwelwyr yn ystod y misoedd allfrig nag ym misoedd brig y tymor gwyliau, gyda 71% o ymweliadau ym misoedd craidd yr haf, sef mis Gorffennaf a mis Awst; a
- bydd boddhad ymwelwyr yn cynyddu ymhellach fel bod Parc Cenedlaethol Cairngorms yn dod yn gyrchfan blaenllaw ar gyfer profiad ymwelwyr a boddhad cwsmeriaid.

Mae ymgysylltu a mynd i'r afael â heriau twristiaeth yn uniongyrchol wedi peri i Cairngorms ddod yn un o ddau barc cenedlaethol yn unig yn y DU i gael Gwobr y Siarter Ewropeaidd ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy[10]. Mae'r Siarter yn seiliedig ar bum egwyddor a ddylai reoli sut y caiff twristiaeth ei datblygu a'i rheoli mewn ardaloedd gwarchodedig, trwy roi blaenoriaeth i warchod; cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy; ennyn ymgysylltiad yr holl randdeiliaid; cynllunio twristiaeth gynaliadwy'n effeithiol a mynd ar drywydd gwelliant parhaus. Mae buddsoddi yn yr achrediad hwn bob pum mlynedd yn darparu fframwaith atebolrwydd sy'n helpu i ysgogi momentwm mewn partneriaethau allweddol sy'n rhan o hybu twristiaeth gynaliadwy.

Gan edrych i'r dyfodol, mae CNPA newydd gyflwyno eu Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol nesaf i Weinidogion yr Alban ac mae'r gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredu Twristiaeth newydd ar y gweill i'w gyflwyno i Europarc yn ddiweddarach eleni. Yn ogystal, mae gan brosiect Gorwelion Treftadaeth: Cairngorms 2030 sydd yn y cyfnod datblygu ar hyn o bryd, gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer newid trawsnewidiol, gan roi'r pŵer i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur yn nwylo'r rhai sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol, yn ymweld ag ef neu'n gweithio ynddo. Bydd y prosiect hwn yn gweithredu fel Cynllun Gweithredu Hinsawdd Cyrchfan, y mae CNPA wedi ymrwymo i'r fenter Twristiaeth yn datgan Argyfwng Hinsawdd gydag ef. Yn yr un modd, mae CNPA a Phartneriaeth Fusnes Cairngorms hefyd wedi ymrwymo'n ddiweddar i Ddatganiad Glasgow ar Weithredu yn yr Hinsawdd mewn Twristiaeth.

10 Siarter Ewropeaidd ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy

Archwilio Cymru
Audit Wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn destun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru